



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cynorthwyo datblygiad dyfeisgarwch cymunedol

Fframwaith ar gyfer
dyfeisgarwch cymunedol
sy'n seiliedig ar leoedd



Cynnwys

Cydnabyddiaeth.....	3
Cyflwyniad.....	4
Fframwaith ar gyfer dyfeisgarwch cymunedol sy'n seiliedig ar leoedd.....	6
1. Strwythurau gwleidyddol.....	7
2. Partneriaethau statudol.....	9
3. Arwain agweddau.....	10
4. Profiadau pobl.....	12
5. Comisiynu gofal cymdeithasol.....	14
6. Cyllid anstatudol.....	15
7. Tai cymdeithasol.....	17
8. Gofal sylfaenol.....	18
9. Yr economi sylfaenol.....	20
10. Arolygu ac archwilio.....	21
Sut i arwain er mwyn cynorthwyo datblygiad dyfeisgarwch cymunedol.....	23
Galluogwyr.....	24
1. Arweinyddiaeth.....	24
2. Gweithredu cymunedol.....	26
3. Cydgynhyrchu.....	28
4. Polisi.....	30
5. Meddwl yn strategol.....	31
6. Adnoddau.....	32
7. Cydweithio.....	33
8. Atal.....	34

Cydnabyddiaeth

Comisiynwyd y fframwaith ar gyfer cefnogi a datblygu cymunedau dyfeisgar gan Ofal Cymdeithasol Cymru. Cyflawnwyd y gwaith gan gwmni Hugh Irwin, a hynny ar y cyd ag aelodau'r Bartneriaeth Cymunedau Dyfeisgar.

Mae'r bartneriaeth yn cynnwys mudiadau o'r trydydd sector, y sector gyhoeddus ac academaidd. Heb eu mewnbwn nhw fyddai datblygiad y fframwaith ar gyfer cefnogi a datblygu cymunedau dyfeisgar ddim wedi bod yn bosib.

Hoffem ni ddiolch i'r nifer o bobl a mudiadau wnaeth gyfrannu eu hamser a'u gwybodaeth i gydgyhyrchu'r fframwaith hwn.

Croesawn unrhyw sylwadau am gynnwys neu ddefnydd y fframwaith, ac fe anogwn i chi rannu eich adborth gydag Emma Davies ar emma.davies@gofalcymdeithasol.cymru.

Cyflwyniad

Croeso i'r fframwaith ar gyfer dyfeisgarwch cymunedol sydd wedi'i gynllunio gan ac ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn cyflymu neu gynnal mwy o weithgareddau sy'n cyd-fynd â dyfeisgarwch cymunedol. Hefyd, mae'n ystyried adolygiad o lenyddiaeth ac ymarfer, sydd wedi amlygu priodoleddau cyffredin dyfeisgarwch cymunedol.

Mae'r syniad o ddyfeisgarwch cymunedol wedi datblygu o'n ffocws gwreiddiol ar gydnerthedd cymunedol. Mae cydnerthedd yn ymwneud ag adfer a goroesi, a dyna sut mae llawer o gymunedau wedi ymateb i'r pandemig. Mae dyfeisgarwch yn symud y ffocws tuag at gryfderau mewn cymunedau, gan gynnwys eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u cysylltiadau, er mwyn cynorthwyo ei gilydd mewn ffyrdd cadarnhaol ac ymarferol.

Mae sawl model a dull gweithredu ar gael i wneud hyn, gan gynnwys sgiliau ac arbenigedd gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Nid yw'n ymwneud cymaint â defnyddio'r dull neu'r adnoddau penodol 'cywir', ac mae'n canolbwyntio mwy ar sicrhau bod y sgwrs yn digwydd ym mhob cymuned.

Mae hwn yn faes cymhleth, a bydd yn dibynnu ar gysylltiadau cryf, gwerthoedd cyffredin a syniadau hirdymor i lwyddo. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi datblygu rhai egwyddorion defnyddiol ar gyfer meithrin cydnerthedd cymunedol sy'n gallu helpu'r broses o ddeall beth mae hyn yn ei olygu¹.

Dylai'r sgwrs:

- fod yn seiliedig ar leoedd
- digwydd wyneb yn wyneb (ar ffurf rithwir o bosibl)
- bod yn deg ac yn ddiuedd
- cynnwys y sector a'r cyhoedd gymaint â phosibl
- cyfeirio at, ond heb fod yn seiliedig ar, wybodaeth feintiol, fel sawl gwaith y mae gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio, neu nifer y bobl ag angen penodol
- cael ei chefnogi, ond nid ei harwain, gan wasanaethau cyhoeddus
- arwain at gytuno ar gamau gweithredu – mae blaenoriaethau'r gymuned yn cael eu hystyried ac mae camau'n cael eu rhoi ar waith
- ceisio nodi a chryfhau arweinyddiaeth leol
- datblygu dull o ymgorffori'r broses a'i hadolygu o bryd i'w gilydd
- cryfhau dulliau sy'n seiliedig ar leoedd o ymdrin â'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector
- gosod y sylfeini ar gyfer gweledigaeth gyffredin ar gyfer pob lle.

Bydd dwyn ynghyd y canfyddiadau o bob lle yn helpu byrddau gwasanaethau cyhoeddus a byrddau partneriaeth rhanbarthol i ddeall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i gefnogi dyfeisgarwch cymunedol.

Bydd angen i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ym mhob ardal awdurdod lleol adnewyddu eu hasesiadau llesiant o 2021, a bydd byrddau partneriaeth rhanbarthol yn cwblhau eu hasesiadau o anghenion y boblogaeth. Mae disgwyliad clir gan Lywodraeth Cymru² y bydd byrddau gwasanaethau cyhoeddus a byrddau partneriaeth rhanbarthol yn cydweithio i hyrwyddo llesiant. Mae cyfle gwirioneddol i'r gwaith hwn gynorthwyo ymgysylltiad a newid seiliedig ar dystiolaeth mewn cymunedau.

Rydym wedi datblygu'r fframwaith hwn fel man cychwyn. Bydd yn cael ei brofi a'i wella, ond rydym am ei rannu nawr er mwyn ei ddefnyddio i gynorthwyo cynllunio effeithiol seiliedig ar le ar lefel bwrdd partneriaeth rhanbarthol neu fwrdd gwasanaethau cyhoeddus.

1. gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Approaches-Report-Exec-Summ-CYM-copy.pdf
2. llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/asesiadau-anghenion-y-boblogaeth.pdf

Pwy ddylai gymryd rhan?

Mae pob lle yn wahanol, a bydd amrywiaeth y sefydliadau a'r bobl y bydd angen i chi eu cynnwys yn adlewyrchu hyn. Ond mae angen ystyried tri ffactor wrth benderfynu pa unigolion i'w cynnwys – dylech:

- weithio gyda **phobl leol** a gweithwyr lleol sy'n adnabod eu cymunedau a'u hadnabod yn dda, megis cysylltwyr cymunedol, pleidwyr stryd a'r rhai sydd â chysylltiadau â chyrrff angori cymunedol³
- sicrhau eich bod yn cynnwys y bobl sydd leiaf tebygol o ymgysylltu
- ceisio cyrraedd **pob sector** a fydd yn helpu i ddwyn ynghyd yr holl sefydliadau yn y gymuned – nid gwasanaethau cyhoeddus yn unig, ond eraill fel y sectorau busnes, diwylliannol ac ysbrydol – er mwyn sicrhau eich bod yn adlewyrchu cwmpas llawn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Bydd angen i chi nodi a chefnogi arweinwyr lleol i ddwyn ynghyd pobl a sefydliadau ar lefel lle, yn ogystal â deall yr asedau a'r capasiti sy'n bodoli eisoes a gwneud cysylltiadau newydd.

Beth y dylid siarad amdano neu ei archwilio?

Gellir defnyddio'r fframwaith hwn fel sylfaen i sgysiau lleol ymysg partneriaethau strategol er mwyn helpu i sicrhau bod sgysiau sy'n seiliedig ar leoedd yn cael eu cynnal ym mhob cymuned yng Nghymru. Mae'r fframwaith yn cynnwys:

Meysydd ffocws

Nodwyd 10 maes ffocws sy'n gyfuniad o sectorau, dulliau gweithredu a strategaeth. Nid ydynt yn gynhwysfawr, gan fod pobl sy'n awyddus i ddatblygu cydnerthedd cymunedol yn gweithio o fewn system hynod gymhleth. Mae'r meysydd ffocws yn canolbwyntio mwy ar sut i gael yr effaith fwyaf, y meysydd a godwyd amlaf gan y bobl y buom yn siarad â nhw a'r meysydd roedd angen ymchwilio iddynt ymhellach. Cyflwynir y rhain fel naratif i bartneriaethau strategol feddwl amdanynt, gyda meysydd gweithredu 'meysydd i ganolbwyntio arnynt' ar ddiwedd pob naratif.

Rydym wedi cynnwys rhestr o adnoddau defnyddiol ar ddiwedd pob maes ffocws.

Galluogwyr


Cefnogir y meysydd ffocws gan wyth galluogwr – mae gan bob galluogwr gyfres o amcanion a chmau gweithredu y gellir eu profi a'u datblygu mewn lleoliadau cymunedol gwirioneddol. Bydd cyrrff cyhoeddus yn gyfarwydd â'r dulliau hyn, a nodwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn yr [Offeryn Gwirio Taith a Hunanfyfyrion](#) ar gyfer cyrrff cyhoeddus. Rydym wedi cynnwys dolenni i adnoddau defnyddiol ym mhob adran.

Partneriaeth Cymunedau Dyfeisgar

Dechreuodd ein gwaith gyda phobl o sectorau gwahanol a oedd â diddordeb mewn dyfeisgarwch cymunedol. Trwy weithio gyda nhw, rydym wedi nodi eu rôl bosibl yn y dyfodol a sut maen nhw'n gallu cyrraedd yno, gan ddenu partneriaid a diddordebau newydd ar hyd y ffordd. Rydym yn nodi bod dyfeisgarwch cymunedol yn fusnes pawb ac yn fusnes neb – dyma'r bwlch y bydd angen i'r rhwydwaith ei lenwi.

3. Mae cyrrff angori cymunedol yn annibynnol, yn cael eu harwain gan y gymuned ac yn amlbwrpas yn aml, a gallent fod yn berchen ar asedau fel adeiladau a gallu cynhyrchu eu hincwm eu hunain. Er enghraifft, gallent fod yn neuadd bentref neu'n lyfrgell leol. Yn ystod y pandemig, roedd enghreifftiau o dafarndai a oedd yn cael eu hystyried yn gyrrff angori cymunedol.

Fframwaith ar gyfer dyfeisgarwch cymunedol sy'n seiliedig ar leoedd



Meysydd ffocws

1. Strwythurau gwleidyddol

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac Un Llais Cymru yw'r cyrff aelodaeth ar gyfer cynghorau etholedig ar lefel awdurdodau lleol a chymunedol. Aethom ati i ystyried sut mae cynghorau ar y ddwy lefel yn defnyddio eu pwerau, eu dyletswyddau a'u cysylltiadau i sicrhau bod prosesau cynllunio sy'n seiliedig ar leoedd yn cael eu rhoi ar waith.

Beth oedd y prif negeseuon?

Mae cynghorau yn derbyn cymorth i ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar leoedd o ddatblygu cymunedau trwy gydgyngyrchu ar sail gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth Cymru:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Cynllun Gweithredu Cynllunio Cadarnhaol (2015)
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Dywedodd y bobl y buom yn ymgysylltu â nhw fod newid wedi digwydd, ar lefelau awdurdodau lleol neu ranbarthol yn bennaf. Ond mae angen gwneud mwy i helpu i gynllunio dyfeisgarwch cymunedol sy'n seiliedig ar leoedd ar lefel cymunedau lleol. Mae cynghorau cymuned a thref yn gwneud cyfraniad cyfyngedig at brosesau cynllunio lleol sy'n seiliedig ar leoedd, ond nid yw'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth i awdurdodau lleol eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau. Hefyd, nid oes gan rai cymunedau yng Nghymru gyngor tref na chymuned.

Mae dull o'r gwaelod i fyny sy'n dechrau gyda chymunedau lleol yn cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r dull hwn yn cynnwys ystod ehangach o grwpiau – nid y partneriaid statudol yn unig – gan ddylunio gweithgareddau a chynlluniau lleol gyda'i gilydd ar lefel gymunedol leol. Mae'n dechrau digwydd mewn nifer fach o leoedd.

Dywedwyd wrthym fod mwy o bobl yn dibynnu ar gynghorau cymuned a thref yn ystod y pandemig. Mae awdurdodau lleol a chynghorau cymuned a thref wedi datblygu perthynas gadarnhaol, ac mae eu dull o rannu risg a phŵer wedi bod o fudd i gymunedau lleol.

Ar beth ddylem ni fod yn canolbwyntio?

- Sefydlu siarter ar y cyd sy'n disgrifio sut mae pob awdurdod lleol a'i gynghorau cymuned a thref yn gallu cydweithio'n fwy rhagweithiol ym maes cynllunio sy'n seiliedig ar leoedd. Gall hyn gael ei lywio gan yr [Ymateb i Covid 19: Protocol ar gyfer cydweithio](#) a ddatblygwyd gan Un Llais Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae'r ddogfen yn nodi eu hymrwymiad i iechyd a diogelwch pobl a chymunedau ledled Cymru yn ystod y pandemig
- Troi'r cysylltiadau sydd wedi gwella oherwydd y pandemig yn gynghreiriau strategol ffurfiol
- Dangos eich ymrwymiad i sefydlu cysylltiadau cyfatebol rhwng cynghorwyr awdurdodau lleol a chynghorau tref a chymuned lleol sy'n seiliedig ar arweinyddiaeth gadarn, ymddiriedaeth, agweddau a sgiliau. Cael gwared ar y rhwystrau hanesyddol i gydweithio
- Defnyddio gwybodaeth a sgiliau aelodau etholedig a swyddogion ar gyfer gwaith cynllunio sy'n seiliedig ar leoedd
- Datblygu [arweinyddiaeth dosturiol](#) sy'n seiliedig ar berthynas
- Sefydlu timau dyfeisgarwch cymunedol sy'n seiliedig ar leoedd.

Ble ga'i ragor o wybodaeth?

1. [Mwy o Rymoedd a Chyfrifoldebau i Gynghorau Tref a Chymuned](#)
Mwy o Rymoedd a Chyfrifoldebau i Gynghorau Tref a Chymuned
Prifysgol Aberystwyth 2010
2. [volunteer-ambassadors-to-promote-monmouthshires-beautiful-towns-and-villages/](#)
Call for Volunteer Ambassadors to promote Monmouthshire's beautiful towns and villages
SW Argus 2020
3. [A new geography of local government in Cornwall.pdf](#)
A new geography of local government: The changing role of Town and Parish Councils in Cornwall, UK
Prifysgol Caerwysg 2019
4. [Arfer Da gan y Cyngor](#)
Enghreifftiau o ymatebion cymunedol gan Awdurdodau Lleol i Covid-19
CLILC 2020-1
5. [Llawlyfr Cynllunio](#)
Llawlyfr Cynllunio: Canllaw ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol: Cynorthwyo awdurdodau i ddatblygu polisiau a blaenoriaethau a fydd yn gwella gwasanaethau cyhoeddus a democratiaeth
CLILC 2017
6. [Maniffesto CLILC ar gyfer Lleoliaeth ar gyfer Etholiadau'r Senedd 2021 \(Tachwedd 2020\)](#)
CLILC Tachwedd 2020
7. [Tystiolaeth CLILC - Ymchwiliad Llywodraeth Leol i Covid-19 a'i effaith ar y Sector Gwirfoddol](#)
Tystiolaeth i Bwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru
CLILC 2021
8. [Y Panel Adolygu Annibynnol ar Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru](#)
Y Panel Adolygu Annibynnol ar Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru: Adroddiad Terfynol
Llywodraeth Cymru 2018
9. [gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/arweinyddiaeth-dosturiol-i-reolwyr](#)
Gwybodaeth ac adnoddau i gefnogi arweinyddiaeth gyfunol a thosturiol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
Gofal Cymdeithasol Cymru 2020

2. Partneriaethau statudol

Mae llesiant a dyfeisgarwch cymunedol yn ategu nifer o ddyletswyddau statudol:

- mae'n gwneud cyfraniad pwysig at waith atal ac ymyrryd yn gynnar ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- un o amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw helpu i ddatblygu cymunedau clos yng Nghymru.

Ond rhaid cofio bod mwy nag un person, grŵp, adran neu sefydliad yn gyfrifol am ddyfeisgarwch cymunedol.

Mae'n rhan o'r gwaith fel arfer, ond nid y prif ffocws. O ganlyniad, mae cysylltiadau a rhwydweithiau yn hanfodol er mwyn sicrhau mynediad, cyllid a chaniatâd i ddatblygu rhaglenni dyfeisgarwch cymunedol. Gall y gwaith hwn gael ei lywio gan un sector neu drwy drefniadau partneriaeth sydd eisoes ar waith. Mae'n digwydd ar hap yn hytrach nag yn strategol yn aml.

Beth oedd y prif negeseuon?

Mae byrddau partneriaeth rhanbarthol a byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud cyfraniad allweddol at ddylanwadu ar dwf dyfeisgarwch cymunedol. Yr her yw defnyddio adnoddau yn effeithiol er mwyn cefnogi llesiant cymunedol:

- mae llawer o waith gan fyrddau partneriaeth rhanbarthol yn dibynnu ar gydweithio rhwng aelodau. Gallant sefydlu cyllidebau ar y cyd a sicrhau cyllid tymor byr trwy grantiau. Mae angen troi'r gwaith hwn yn gyfleoedd mwy hirdymor i ailgynllunio gwasanaethau sy'n gynaliadwy ac yn arloesol. Yn aml, mae'n rhaid i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ddefnyddio cyllidebau eu sefydliadau perthnasol i sicrhau bod hyn yn digwydd. Dywedwyd wrthym mai byrddau gwasanaethau cyhoeddus yw'r "gofod naturiol" ar gyfer hyrwyddo dyfeisgarwch cymunedol sy'n seiliedig ar leoedd. Mae rhai byrddau gwasanaethau cyhoeddus wedi datblygu dulliau mwy hirdymor sy'n seiliedig ar leoedd trwy ddwyn ynghyd cyllid tymor byr mewn un gronfa.

Ar ddechrau'r pandemig, roedd sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn gweithredu mewn byd nad oedd yn cael ei reoli gan wasanaethau statudol bellach. Cafodd cynghorau gwirfoddol sirol, a oedd eisoes yn elfen bwysig o dirwedd gwasanaethau Cymru, hwb enfawr gan eu bod mewn sefyllfa dda i fod yn llais gwirfoddolwyr a'r trydydd sector.

Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau statudol wedi elwa ar gael mwy o arian i ymateb i'r pandemig, ac mae cronfeydd arian parod wedi cynyddu hefyd. Mae hyn wedi rhoi sefydlogrwydd ariannol annisgwyl i sefydliadau, gan roi cyfle iddynt fuddsoddi'n gyflym mewn sefydliadau trydydd sector a chynghorau gwirfoddol sirol a oedd yn agos at gymunedau.

Mae cwmpas Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn bellgyrhaeddol, a'r bwriad yw sicrhau bod modd ei chymhwyso yn eang. Mae hyn yn addas iawn i bwnc mor fawr â dyfeisgarwch cymunedol.

Ar beth ddylem ni fod yn canolbwyntio?

Dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol a byrddau gwasanaethau cyhoeddus fanteisio ar y cyfle i ailadrodd eu hasesiadau o anghenion a llesiant y boblogaeth er mwyn datblygu dull cyffredin a chydweithredol:

- **sy'n seiliedig ar leoedd er mwyn datblygu dyfeisgarwch cymunedol** ym mhob cymuned
- **dull o ddiffinio gwaith cynllunio sy'n seiliedig ar leoedd** sy'n nodi'r hyn y maent yn gobeithio ei gyflawni gyda chymunedau
- **strategaeth leol ar gyfer dyfeisgarwch cymunedol** sy'n cael ei hariannu ac sy'n buddsoddi mewn cymunedau lleol yn fwy hirdymor ac sy'n monitro effaith cynlluniau ariannu cenedlaethol.

3. Arwain agweddau⁴

Yn ddiweddar, cafwyd llawer o sylw i ymateb cymunedau i'r pandemig. Cafwyd llawer o erthyglau a datganiadau am gydnherthedd cymunedol yn ystod y pandemig gan y canlynol:

- melinau trafod
- academyddion
- gwleidyddion a phobl sy'n llunio polisi
- gwasanaethau a phroffesiynau sy'n ei chael hi'n anodd darparu eu rhaglenni arferol
- sefydliadau gwirfoddol a chymunedol.

Mae'n bwnc sy'n croesi gwleidyddiaeth plaid a safbwyntiau'r sector cyhoeddus. Mae'n gysylltiedig ag adfer ar ôl trychineb a seicoleg gan fod y broses o sut mae pobl yn gweithredu a pha mor ddyfeisgar ydynt yn dibynnu ar yr amodau yn lleol ac yn y gymuned lle mae'r sefyllfa'n datblygu. Mae cydnherthedd cymunedol yn ymwneud â sut mae cymunedau'n gwella yn dilyn straen neu drychineb, tra bod dyfeisgarwch cymunedol yn canolbwyntio ar sut mae adnoddau cymunedol yn gallu cryfhau a chynnal cymuned wrth wynebu her.

Beth oedd y prif negeseuon?

Roedd graddfa ac effaith y pandemig yn annisgwyl, felly mae'r rhan fwyaf o'r sylw wedi canolbwyntio ar ymateb cymunedau. Er mwyn darganfod sut y gallwn gynnal llesiant cymunedau, dylem ddsygu sut mae cymunedau'n ffynnu, nid dim ond sut maent yn goroesi her.

Rydym yn dysgu llawer am ddyfeisgarwch cymunedol ledled Cymru, ond nid yw'n gysylltiedig o reidrwydd. Mae gwaith ymchwil yn dechrau archwilio ymateb cymunedau yn ystod cyfnodau gwahanol y pandemig, ac effaith yr holl darfu ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol traddodiadol ar ddyfeisgarwch cymunedol. Pan fydd canfyddiadau'r gwaith ymchwil ar gael, bydd angen iddynt gael eu hystyried gan yr ystod ehangaf o sefydliadau.

Mae llawer o dermau ar gael i ddisgrifio cydnherthedd, llesiant, cryfder a dyfeisgarwch cymunedol. Mae'r holl dermau yn cael eu defnyddio a'u dehongli mewn ffyrdd gwahanol. Ni ddylem geisio eu troi'n set o ddiffiniadau y mae pawb yn cytuno arnynt oherwydd gallai hynny guddio gwahaniaethau pwysig sydd angen eu cydnabod a'u deall o ran sut mae'r termau yn cael eu dehongli. Mae dadl barhaus yn ymwneud â'n dehongliad o ddyfeisgarwch cymunedol yn bwysig er mwyn ceisio sicrhau dealltwriaeth gyffredin o'r mater cymhleth hwn. Mae taith y sgwrs yr un mor bwysig â'r casgliadau terfynol.

4. Mae arweinwyr agweddau yn bobl â safbwyntiau sy'n seiliedig ar wybodaeth neu'n 'bobl hynod wybodus' am eu maes arbenigedd. Maent yn cael eu hystyried yn ffynonellau dibynadwy sy'n symud ac yn ysbrydoli pobl â syniadau arloesol gan wireddu syniadau o bosibl

Ar beth ddylem ni fod yn canolbwyntio?

Dylai arwain agweddau am gydnheredd cymunedol ganolbwyntio ar **sut mae theori a thystiolaeth yn cael eu troi'n newid sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol**, er mwyn sicrhau bod gan gymunedau'r gefnogaeth, yr adnoddau a'r hyblygrwydd sydd eu hangen arnynt i oresgyn heriau i'w llesiant yn y dyfodol.

Mae'r gwersi a ddysgwyd o'r pandemig yn ddefnyddiol iawn i ddau grŵp:

- cymunedau a allai elwa ar **becynnau cymorth a syniadau ar gyfer newid** ar sail yr hyn y gwyddom sy'n gweithio
- pobl sy'n llunio polisi ac sy'n ceisio **ail-lunio'r berthynas rhwng strwythurau cymdeithasol a llywodraethol a'r cymunedau** y maent yn eu cefnogi.

Ble ga'i ragor o wybodaeth?

1. whatworkswellbeing.org/?s=covid
Dealltwriaeth gyflawn o effaith y pandemig ar lesiant cymunedau
What Works Well-being
2. www.health.org.uk/what-we-do/responding-to-covid-19
Effaith ac Ymateb i Covid-19 ar lefel poblogaeth a chymuned
Y Sefydliad Iechyd
3. www.kingsfund.org.uk/audio-video/community-resilience-covid-19-pandemic-carolyn-otley
Casgliad o flogiau ar gydnheredd cymunedol
The King's Fund
4. www.bevanfoundation.org/coronavirus/
Diweddariadau a gwybodaeth sy'n berthnasol i Gymru
Sefydliad Bevan
5. www.wcpp.org.uk/cy/prosiect/unigrwydd-yng-nghymru/
Yr effaith ar unigrwydd ac arwahanrwydd yng Nghymru
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
6. [Adroddiad Grymuso Cymunedau - CGGC](#)
Adroddiad Grymuso Cymunedau
CGGC
7. icc.gig.cymru/files/resilience/cydnheredd-deall-y-rhyng-ddibyniaeth-rhwng-unigolion-a-chymunedau/
Cydnheredd a Llesiant
Iechyd Cyhoeddus Cymru
8. gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Anatomi-cydnheredd-Pecyn-cymorth.pdf
Pecyn cymorth anatomi cydnheredd, sy'n nodi beth mae cydnheredd yn ei olygu i bobl hŷn
Gofal Cymdeithasol Cymru

4. Profiadau pobl

Mae llawer o ffactorau anffurfiol yn cefnogi llesiant y gymuned, er enghraifft:

- cyngorau cymuned sy'n weithgar/sy'n gwneud llawer dros y gymuned
- clybiau ar gyfer pobl â diddordebau cyffredin
- mynediad at fannau gwyrdd
- cymdogion da
- banciau bwyd
- llinellau ffôn cymorth.

Mae cyswllt rheolaidd â phobl eraill a lleoedd i gyfarfod yn bwysig iawn. Oherwydd y cyfyngiadau symud, nid oedd gan bobl gyfleoedd i gyfarfod, ac amharwyd ar rai gwasanaethau. O ganlyniad, roedd yn rhaid i bobl ddibynnu mwy ar rwydweithiau cymorth anffurfiol.

Beth oedd y prif negeseuon?

Yn ystod y pandemig, roedd rhai pobl wedi rhoi'r gorau i becynnu gofal, gan ddibynnu ar aelodau'r teulu a chymdogion am gymorth. Roedd cymdogion da a gwirfoddolwyr wedi darparu cymorth mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- casglu bwyd a phresgripsiynau
- rhoi o'u hamser i sgwrsio
- rhannu gwybodaeth er mwyn adnabod pobl sy'n agored i niwed yn y gymuned
- mae pobl hyn wedi defnyddio eu profiad bywyd i ddarparu cymorth emosiynol
- mae cymunedau lleiafrifoedd ethnig wedi darparu parseli bwyd i ddiwallu anghenion dietegol a diwylliannol gwahanol.

Roedd llawer o'r cymorth hwn wedi deillio o'r ffaith bod aelod o'r gymuned wedi gweithredu ac wedi deall anghenion pobl. Mae cymdogion da wedi dod yn grwpiau sy'n cynnig cymorth ac yn darparu arweinyddiaeth yn eu cymunedau. Nid yw'n digwydd ym mhobman ac nid yw'n cynnwys pawb yn y gymuned o reidrwydd. Er enghraifft, mewn ardaloedd lle mae rhwystrau diwylliannol a rhagfarn yn bodoli o bosibl. Mae diffyg dealltwriaeth o hyd o'r anghenion a'r heriau mewn cymunedau BAME.

Mae'r pandemig wedi rhoi "caniatâd" i bobl ofyn am gymorth, gan deimlo llai o gywilydd wrth wneud hynny. Mae'r defnydd o fanciau bwyd wedi cynyddu mewn sawl ardal, ac mae gwasanaethau gwirfoddol wedi gweld cynnydd mawr yn nifer y bobl sy'n atgyfeirio eu hunain. Mae cyfathrebu, ymddiriedaeth a chydweithio da ledled gwasanaethau cymunedol a statudol yn bwysig er mwyn darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pobl. Mae cysylltwyr cymunedol, cefnogwyr stryd a chyrrff angori i gyd yn hanfodol. Ond roedd rhai pobl y buom yn siarad â nhw yn teimlo bod y sector statudol yn diystyru mentrau ar lawr gwlad oherwydd diffyg arbenigedd.

Mae angen i bobl gyfrannu mwy at y broses o wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Gofynnwyd i rieni, gofalwyr a phobl hyn sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol am yr hyn sy'n bwysig iddynt yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Dywedodd pobl wrthym eu bod yn teimlo'n rhwystredig ac yn siomedig pan wnaed penderfyniadau nad oeddent yn adlewyrchu'r hyn a gafodd ei ddweud yn eu barn nhw. Roedd hyn yn effeithio ar eu hymddiriedaeth o wasanaethau statudol.

Mae rhai pobl wedi dysgu sut i fynd ar-lein, ond mae eraill wedi cael trafferthion mawr gan nad oes ganddynt gysylltiad digidol. Mae dulliau cyfathrebu all-lein, megis taflenni a byrddau arddangos mewn

siopau lleol, yn bwysig o hyd. Mae llawer o bobl yn parhau i dderbyn eu newyddion a'u gwybodaeth o bapurau newydd, radio a theledu.

Ar beth ddylem ni fod yn canolbwyntio?

- Annog pobl i leisio eu barn am y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Sicrhau ei bod yn hawdd iddyn nhw gymryd rhan.
- Meddwl am sut i newid o ddweud wrth bobl sut i gadw'n ddiogel trwy aros gartref i **sut y gallant ddychwelyd a chymryd rhan yn ddiogel** yn eu cymunedau.
- Cydnabod bod **gwasanaethau sy'n cael eu darparu mewn cymunedau gan gymunedau** yn gwneud cyfraniad enfawr at iechyd a llesiant.
- Mae gofalwyr di-dâl wedi cael profiad anodd iawn, a rhaid i ni **roi pwyslais ar adfer cymorth ar gyfer gofalwyr**, gan gynnwys gofalwyr di-dâl newydd sy'n ymateb i anghenion sydd wedi codi yn ystod y pandemig.

Ble ga'i ragor o wybodaeth?

1. www.tfcpcbromeshire.org/
Gyda'n Gilydd dros Newid, Cydweithrediad Unigryw Rhwng y Sector Cyhoeddus a'r Trydydd Sector

Gofal Solfach, PAVS a Planed
2. www.cysylltuacharedigrwydd.cymru/
Cysylltu â Charedigrwydd

Partneriaeth De-orllewin Cymru
3. www.timetochangewales.org.uk/cy/
Ymgrych genedlaethol i roi terfyn ar stigma a gwahaniaethu a wynebir gan bobl â phroblemau iechyd meddwl

Hafal a Mind Cymru
4. wcva.cymru/wp-content/uploads/2021/01/Community-response-to-Covid-19.pdf
Ymateb Cymunedol i Covid-19 – galluogi ymarfer diogel ac effeithiol

CGGC
5. www.wlga.cymru/good-council-practice-covid-19
Arferion Da'r Cyngor – Covid-19

CLILC

5. Comisiynu gofal cymdeithasol

Mae comisiynu gofal cymdeithasol yn ymwneud â deall angen ac yna sicrhau bod gwasanaethau ar gael i ddiwallu'r angen⁵. Mae'n cynnwys deall beth sydd ar gael a datblygu gwasanaethau newydd neu wasanaethau sy'n bodoli eisoes.

Un o egwyddorion *Cymru lachach* yw atal ac ymyrryd yn gynnar er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu mwynhau iechyd a llesiant da gydol oes. Gall comisiynu gofal cymdeithasol hyrwyddo dyfeisgarwch a llesiant cymunedol mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol a thrwy weithgareddau atal ac ymyrryd yn gynnar. Gellir datblygu camau gweithredu iechyd a llesiant ataliol dan arweiniad lleol ar lawr gwlad. Er bod enghreifftiau ardderchog ar gael (gweler 'ble ga'i ragor o wybodaeth?' isod), mae angen gwneud llawer o waith o hyd i roi trefniadau comisiynu gwirioneddol hyblyg ar waith yn unol ag amcanion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Beth oedd y prif negeseuon?

Mae sicrhau cyllid cynaliadwy ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi canlyniadau llesiant hirdymor yn her ledled y DU. Gallai fframweithiau comisiynu mwy hyblyg gefnogi llesiant cymunedol trwy ganiatáu prosesau ariannu a darparu gwasanaethau llesiant ac atal yn fwy hirdymor er mwyn iddynt gael effaith. Gellid defnyddio cyllid tymor byr i gychwyn y broses hon gydag ymrwymiad i newid i weledigaeth fwy hirdymor ar gyfer gwasanaethau ataliol.

Mae gwaith mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys gwaith dan arweiniad Cwmni Buddiannau Cymunedol Community Catalysts ym Mhowys a datblygiadau microfentrau ledled y Gogledd, yn dangos sut mae rhwydweithiau gofal hyperleol, hunanreoleiddiol yn gallu darparu gwasanaeth sy'n diwallu anghenion cymhleth mewn cymunedau.

Mae cynghorau gwirfoddol sirol a'r trydydd sector yn gwneud cyfraniad hanfodol at ddatblygu dyfeisgarwch cymunedol cryf. Maent yn sicrhau bod y rhai mewn angen yn gallu cael gafael ar ffynonellau cymorth a gwybodaeth y gellir ymddiried ynddynt yn lleol heb orfod mynd trwy brosesau atgyfeirio ac asesu ffurfiol.

Mae'r trydydd sector yn darparu ystod ehangach o wasanaethau nag iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn aml mae'n fwy ymatebol i'r hyn sydd ei angen ar gymunedau na phrosesau comisiynu gwasanaethau statudol. Gallant gael gafael ar arian mewn sawl ffordd (er enghraifft, o gaffis cymunedol neu drwy rentu neu logi manau cymunedol). Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar y dulliau amgen hyn o ddod o hyd i gyllid.

Mae arweinyddiaeth leol yn hanfodol er mwyn hyrwyddo prosesau comisiynu arloesol a hyblyg ar gyfer dyfeisgarwch cymunedol. Mae'r rheoliadau ar wariant y sector cyhoeddus yn gallu bod yn gymhleth ac mae angen i bawb ddeall sut y gallant hyrwyddo gweithgarwch agored heb gyfyngu ar arloesedd a hyblygrwydd. Mae darparwyr a chomisiynwyr awdurdodau lleol ac iechyd yn gallu cydweithio yn effeithiol pan fydd arweinwyr yn adlewyrchu barn y cyhoedd.

Ar ble ddylem ni fod yn canolbwyntio?

Bydd arweinyddiaeth leol dda, ymddiriedaeth a chyfathrebu â darparwyr newydd a phresennol gydol y cylch comisiynu yn helpu i **alluogi comisiynu gwirioneddol hyblyg**.

5. [Leading Integrated and Collaborative Commissioning A Practice Guide](#), National Commissioning Board 2017

Wrth asesu canlyniadau neu werth am arian, dylai comisiynwyr ddefnyddio **dulliau ansoddol, megis straeon personol, sydd wedi'u cydgynhyrchu i fesur effaith** buddsoddi mewn dyfeisgarwch cymunedol. Gallwn ddysgu gwersi o ardaloedd anodd eu cyrraedd ac ardaloedd gwledig, lle mae angen datrys problemau er mwyn ymateb i heriau diwallu anghenion y gymuned.

Dylai llunwyr polisi lleol, rhanbarthol a chenedlaethol barhau i ganolbwyntio ar ateb y cwestiwn **'beth ddylai polisi da ei wneud?'** er mwyn darparu'r canllawiau gorau i helpu i sicrhau llwyddiant twf cymunedol ac arloesedd.

Ble ga'i ragor o wybodaeth?

1. www.tfcpcbromkeshire.org/

Gyda'n Gilydd dros Newid, Cydweithrediad Unigryw Rhwng y Sector Cyhoeddus a'r Trydydd Sector

Gofal Solfach, PAVS a Planed

2. www.local.gov.uk/how-commissioning-supporting-community-development-and-community-building

How commissioning is supporting community development and community building

LGA 2020

3. www.ndti.org.uk/resources/commissioning-for-community-inclusion-eight-essential-actions

Commissioning for Community Inclusion: Eight Essential Actions

NDTi 2012

6. Cyllid anstatudol

Mae rhai sefydliadau trydydd sector yn derbyn cyllid gan y llywodraeth ar gyfer gwasanaethau, ond mae'r rhan fwyaf yn dibynnu ar gyllid tymor byr o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys cymorth grant, digwyddiadau codi arian cyhoeddus a gweithgareddau masnachol fel caffis cymunedol a siopau elusennol. Mae'r arian hwn yn cefnogi gweithgareddau cymunedol hanfodol sy'n helpu pobl i gadw'n iach, ac yn atal yr angen am wasanaethau statudol.

Beth oedd y prif negeseuon?

Mae elusennau a sefydliadau cymunedol yn cael eu sefydlu oherwydd yr angen i ymateb i faterion lleol. Gall sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau tebyg wasanaethu diwylliannau, oeddrannau neu ardaloedd gwahanol. Yn aml, mae'n rhaid i'r sefydliadau hyn gystadlu â'i gilydd am gyllid. Yn ystod y pandemig, gweithiodd cyllidwyr gyda'i gilydd fel erioed o'r blaen er mwyn sicrhau bod arian yn cael ei rannu'n effeithiol. Proseswyd ceisiadau grant yn gyflym ac roedd yr angen i adrodd ar sut y cafodd yr arian ei wario yn llai llym. O ganlyniad, roedd llai o faich ar sefydliadau yn ystod cyfnod heriol iawn.

Mae'r trydydd sector wedi'i annog i chwilio am amrywiaeth o ffynonellau incwm er mwyn sicrhau eu bod yn gallu darparu gwasanaethau ymhell i'r dyfodol. Fe ddaeth llawer o'r ffynonellau hyn i ben oherwydd y pandemig – mae siopau elusennol wedi cau, mae digwyddiadau codi arian cyhoeddus wedi'u canslo, mae gweithgareddau a fyddai wedi gallu codi tâl wedi dod i ben ac mae pobl wedi canslo Debydau Uniongyrchol. Mae hyn wedi cael effaith fawr ar gyllid, ac mae elusennau a sefydliadau cymunedol wedi gorfod dibynnu mwy ar grantiau a chyllid sy'n gysylltiedig â'r llywodraeth.

Mae pobl wedi dweud wrthym fod elusennau mawr wedi cael eu heffeithio'n fwy na sefydliadau llawr gwlad llai o ran maint sydd ag incwm llai ac sy'n manteisio ar ewyllys da gwirfoddolwyr. Mewn rhai sefydliadau, bu'n rhaid diswyddo staff codi arian neu eu rhoi ar ffyrlo oherwydd diffyg arian, felly nid oedd unigolyn dynodedig yn codi arian. Mae'r trydydd sector yn wynebu pryderon gwirioneddol am gyllid hirdymor.

Mae sefydliadau wedi gorfod meddwl yn chwim ac ailddyrrannu cyllid, er enghraifft fel y gallent gynnig gwasanaethau ar-lein ac nid wyneb yn wyneb. Er bod cyllid yn bwysig iawn, mae cymorth arall, fel cyngor, arweiniad a chyfraniad gwirfoddolwyr, yn hanfodol.

Ar beth ddylem ni fod yn canolbwyntio?

Datblygu'r strwythurau cywir, gan gynnwys prosesau ariannu, i sicrhau bod mudiadau cymunedol a gwirfoddol yn gallu parhau i weithio yn y dyfodol.

Darparu cyngor, cymorth ac anogaeth i sefydliadau i chwilio am **ystod eang o gyllid** er mwyn parhau i fod yn hyblyg ac yn gryf. Mae cyllid yn gysylltiedig â'r gwahaniaeth y gall sefydliad ei wneud. Mae angen i ni roi mwy o bwyslais ar werth cymdeithasol buddsoddi.

Dod o hyd i ddulliau gweithredu sy'n sicrhau bod sefydliadau yn datblygu **ceisiadau a thendrau gyda'i gilydd** – er enghraifft, gallai sefydliadau ystyried sut i rannu staff codi arian.

Symleiddio prosesau ymgeisio ac adrodd er mwyn lleihau'r baich ar sefydliadau a'i gwneud yn haws i sefydliadau dderbyn cyllid craidd hirdymor. Gall y cais cyson am arloesi mewn ceisiadau grant fod yn waith blinedig ac yn niweidiol i gyllid.

Ble ga'i ragor o wybodaeth?

1. www.thinknpc.org/resource-hub/covid-funding/
Shifting your funding practices during Covid-19

NPC

2. www.thinknpc.org/blog/rethinking-grant-making/
Re-thinking grant-making

NPC

3. moondancefoundation.org.uk
Covid-19 Funding

Sefydliad Moondance

4. cymru.coop/social-value-models-report/
Helpu Comisiynwyr a Chaffaelwyr Gofal i hyrwyddo Modelau Gwerth Cymdeithasol

Canolfan Cydweithredol Cymru

7. Tai cymdeithasol

Mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn darparu amrywiaeth o wasanaethau datblygu cymunedol – gan gynnwys datblygu cymunedol sy'n seiliedig ar asedau.

Nod y dull datblygu cymunedol sy'n seiliedig ar asedau yw sicrhau bod gwasanaethau sy'n cefnogi llesiant a chyfleoedd yn cael eu darparu'n effeithiol i'r rhai sydd eu hangen fwyaf. Mae'n gwneud hyn trwy nodi a manteisio'n llawn ar gryfderau cymuned a thargedau adnoddau lle mae eu hangen.

Beth oedd y prif negeseuon?

Mae llawer o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn awyddus i adfywio cymdogaethau a chymunedau trwy weithio gyda sefydliadau cymunedol eraill. Maent yn cydnabod bod eu brwdfrydedd a'u hanes o weithio gydag eraill yn gallu gwella darpariaeth gwasanaethau a "chreu cymdogaethau lle mae pobl eisiau byw".

Mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn annibynnol ac maent o'r farn eu bod yn cyflawni rolau gwahanol yn eu cymunedau, gan gynnwys:

- cyrff angori cyffredinol dan arweiniad y gymuned⁶
- sefydliadau angori sy'n canolbwyntio ar faterion penodol, megis creu cyfoeth a'r economi sylfaenol⁷
- sefydliadau eraill nad ydynt yn gyrrff angori oherwydd yr anghydbwysedd grym rhwng tenantiaid a landlordiaid.

Ar beth ddylem ni fod yn canolbwyntio?

Buddsoddi mewn prosesau adfywio sy'n blaenoriaethu lleoedd a phobl sydd â'r angen mwyaf, yn cefnogi buddsoddiad mewn tai a'r seilwaith ehangach, ac yn cynnwys datblygu cymunedol.

Cynllunio strategaethau caffael gyda chymunedau i ymgorffori manteision cymunedol ehangach a **chreu cyfoeth yn y gymuned** trwy fuddsoddiad lleol. Rhoi cyfle i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig weithredu mewn ffordd hyblyg er mwyn cael yr **effaith fwyaf** bosibl yn eu cymunedau lleol trwy wneud y canlynol:

- meithrin gallu a sgiliau
- datblygu prosesau cytundebol a llywodraethu
- penderfynu ar y rolau y byddant yn eu cyflawni: e.e. A ydynt yn ariannu, a ydynt yn arwain neu a ydynt yn ymrwmo i bartneriaeth â sefydliadau eraill?

Dylai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gynnwys **gweithio mewn partneriaeth ar draws sectorau** yn eu gweledigaeth a'u strategaeth gorfforaethol, gan nodi'n glir sut y bydd hyn yn sefydlu cynllunio sy'n seiliedig ar leoedd.

Meddwl am ddatblygu **canolfannau neu glystyrau cymunedol** gyda phartneriaid gan gynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol er mwyn helpu i sicrhau bod gweithgareddau'n berthnasol i'r sefyllfa leol a datblygu gallu sefydliadau partner.

6. Mae cyrff angori cymunedol yn annibynnol, yn cael eu harwain gan y gymuned ac yn amlbwrpas yn aml, a gallent fod yn berchen ar asedau fel adeiladau ac yn gallu cynhyrchu eu hincwm eu hunain

7. llyw.cymru/yr-economi-sylfaenol

Ble ga'i ragor o wybodaeth?

1. www.nurturedevelopment.org/wp-content/uploads/2016/01/Communities-in-Control-Developing-Assets.pdf
Communities in Control – Developing Assets

Cormac Russell , ABCD Institute and Nurture Development 2009

2. www.candotoolkits.com/labbytransportforwalescohort3
A decade of re-defining value

Datblygwyd gan brosiect i2i

3. www.ceci.org.uk/wp-content/uploads/2019/08/NHF_Great-Places_Report_Final_Online.pdf
Great Places Report

National Federation Housing 2018

8. Gofal sylfaenol

Mae'r GIG yng Nghymru wedi bod â diddordeb mewn datblygu cydnerthedd cymunedol ers amser maith. Mae polisi iechyd yng Nghymru wedi canolbwyntio ar waith atal mewn sawl sector ers canol y 1980au, ond mae wedi cymryd amser i weld newid mawr yn y dull o ddarparu adnoddau ar gyfer gwaith atal, ac mae anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru yn parhau. Mae'r newid wedi bod yn fwy graddol na thrawsnewidiol, ac mae dyfeisgarwch cymunedol wedi bod yn fwy o broses dros dro a thymor byr, yn hytrach nag elfen gyson o'r dull gweithredu. Mae *Cymru Iachach*⁸ yn nodi'r weledigaeth hirdymor o gyflwyno dull system gyfan o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar iechyd a llesiant, ac ar atal salwch, sy'n arwydd o symud gwasanaethau o ysbytai i gymunedau.

Beth oedd y prif negeseuon?

Mae cymunedau wrth wraidd GIG cynaliadwy am y rhesymau canlynol:

- maent yn helpu pobl i gadw'n iach
- maent yn cynorthwyo pobl mewn ffordd sy'n gallu cyfyngu ar y galw ar iechyd a gofal cymdeithasol
- maent wedi cefnogi'r GIG yn ystod y pandemig a bydd angen eu cyfraniad er mwyn helpu gyda'r adferiad yn dilyn Covid.

Wrth i ni symud tuag at y cyfnod adfer yn dilyn y pandemig, rydym yn debygol o weld mwy o alw am iechyd a gofal cymdeithasol. Gall hyn gynnwys amseroedd aros hirach ar gyfer gwasanaethau, galw newydd am gymorth iechyd meddwl a chymorth hirdymor ar gyfer pobl sydd wedi goroesi Covid, gan gynnwys Covid hir. Bydd y GIG yn teimlo'r pwysau ychwanegol, yn ogystal â dyfeisgarwch pobl, teuluoedd a chymunedau. Bydd angen ymateb amlasiantaethol i'r galw am ofal cymdeithasol a gwasanaethau eraill.

Mae gofal sylfaenol yn rhan hanfodol o'r GIG sy'n gwasanaethu pob cymuned yng Nghymru. Disgrifir gofal sylfaenol yng Nghymru fel rhan o system iechyd a llesiant lle mae pobl yn cael mynediad at ystod o ofal a chymorth di-dor yn y cartref neu'n agos i'r cartref, yn seiliedig ar eu hanghenion unigryw a'r hyn

8. llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.pdf

sy'n bwysig iddynt⁹.

Mae'n cynnwys meddygon teulu, fferylliaeth gymunedol, optometreg a deintyddiaeth, yn ogystal â'r lluo o wasanaethau gofal iechyd lleol a gofal cartref sy'n cael eu darparu yn y gymuned. Ar lefel leol, mae'r 64 o glystyrau gofal sylfaenol yng Nghymru yn caniatáu i bractisau meddygon teulu weithio gyda'i gilydd a chyda phartneriaid.

Mae'r arweinwyr mwyaf arloesol mewn clystyrau gofal sylfaenol yn ceisio datblygu ymateb amlasiantaethol i ddatblygu dyfeisgarwch cymunedol. Mewn rhai ardaloedd, maent wedi gwneud hyn trwy weithio gydag arweinwyr cymunedol eraill ar lefel leol i ddatblygu atebion lleol ymarferol yn ystod y pandemig.

Mae datblygu cysylltiadau â'r trydydd sector wedi bod yn bwysig iawn, ac un enghraifft amlwg o hyn yw presgripsiynu cymdeithasol, sy'n ganolog i waith practisau meddygon teulu. Enghraifft arall yw datblygu canolfannau cymunedol integredig, gan gynnwys gwasanaethau gofal sylfaenol, sy'n debygol o dyfu yn y dyfodol. Arweiniodd y pandemig at dwf cyflym mewn dulliau gweithredu newydd hefyd, gan gynnwys mynediad digidol at ofal sylfaenol.

Ar beth ddylem ni fod yn canolbwyntio?

Dylai clystyrau gofal sylfaenol barhau i ddatblygu, a lle y bo'n briodol, arwain y gwaith o **ddatblygu prosesau cydweithio mewn cymunedau lleol**. Dylent nodi'r hyn y gall cymunedau ei wneud i gefnogi pobl yn ystod cyfnodau adfer yn dilyn y pandemig a sut y gallant gyfrannu at ddyfeisgarwch cymunedol ehangach. Dylid defnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu gan glystyrau gofal sylfaenol i lywio cynlluniau byrddau iechyd a byrddau partneriaeth rhanbarthol.

Mae tystiolaeth dda ar gael am yr hyn sy'n gweithio ar lefel leol, sy'n seiliedig ar fodel cymdeithasol o ofal iechyd. Dylai clystyrau ddysgu oddi wrth ei gilydd a gan y rhaglen genedlaethol o brosiectau trawsnewid sy'n seiliedig ar leoedd er mwyn rhoi'r dulliau hyn ar waith **yn gyflym ac yn gyson** ledled Cymru.

Ble ga'i ragor o wybodaeth?

1. [Hafan - Gofal Sylfaenol Un](https://www.gig.cymru/PHW_Yearbook2019_HywelDda.pdf) (gig.cymru)
[PHW_Yearbook2019_HywelDda.pdf](https://www.gig.cymru/PHW_Yearbook2019_HywelDda.pdf) (wales.nhs.uk)

Gwefan ar gyfer clystyrau gofal sylfaenol yng Nghymru sy'n cynnwys enghreifftiau o waith gan glystyrau ym mhob un o'r byrddau iechyd

GIG Cymru

2. llyw.cymru/cronfa-trawsnewid-iechyd-gwasanaethau-cymdeithasol-prosiectau

Rhaglenni Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mhob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a ariennir drwy'r gronfa drawsnewid

Llywodraeth Cymru

9. Yr economi sylfaenol

Mae polisi economaidd Llywodraeth Cymru yn disgrifio'r economi sylfaenol fel y gwasanaethau a'r cynhyrchion sylfaenol sydd eu hangen ar bobl i gadw'n ddiogel, yn gysurus ac yn wâr. Mae'r gwasanaethau yn cynnwys:

- gofal ac iechyd
- bwyd
- tai
- ynni
- adeiladu
- twristiaeth
- manwerthwyr y stryd fawr.

Mae'r gwasanaethau'n bodoli oherwydd bod pobl yn eu defnyddio: y bwyd rydym ni'n ei fwyta, y cartrefi rydym ni'n byw ynddynt, yr egni rydym ni'n ei ddefnyddio a'r gofal rydym ni'n ei ddefnyddio. Mae hyn yn eu gwneud yn allweddol i gydnerthedd cymunedol. Mewn llawer o achosion, bu'n rhaid addasu ac amrywio gwasanaethau yn ystod y pandemig i ddiwallu anghenion poblogaethau lleol, tra bod cyfyngiadau digynsail ar waith yn aml ar gyllid a'r hyn y gellid ei gyflawni.

Beth oedd y prif negeseuon?

Mewn sawl rhan o Gymru, roedd cymunedau yn dangos mwy o gefnogaeth i fusnesau lleol y gallent ymddiried ynddynt ac a oedd yn cynnig gwasanaethau diogel, dibynadwy a pwrpasol a oedd yn diwallu eu hanghenion. Roedd rhai busnesau wedi manteisio ar y newid i weithio gartref ac aros yn lleol, gan ganiatáu i bobl gefnogi eu cymuned fusnes leol. Bu'n rhaid i lawer fynd ati'n gyflym i addasu sut roeddent yn darparu gwasanaethau, gan ddefnyddio dulliau ar-lein a dulliau eraill o gadw mewn cysylltiad â chwsmeriaid ac, ar adegau, cydweithio i gefnogi eu cymunedau.

Roedd busnesau bach a microfusnesau yn y sector gofal cartref yn parhau i weithredu'n gadarn am eu bod yn gallu addasu i amgylchiadau lleol a bod ganddynt ymrwymiad personol iawn i'w cleientiaid. Mae'r sector busnes cymdeithasol yng Nghymru yn tyfu ac mae'n gallu bod yn rhan bwysig o'r economi sylfaenol. Bydd angen cymysgedd o entrepreneuriaid busnes cymdeithasol lleol a chyingor a chymorth technegol ar y sector er mwyn llwyddo.

Mae polisi caffael yng Nghymru yn annog y sector cyhoeddus i fuddsoddi mewn gwasanaethau sydd â manteision gwerth cymdeithasol trwy ddefnyddio themâu, canlyniadau a mesurau (TOMs). Os ydynt yn cael eu rhoi ar waith ledled y sector cyhoeddus, dylai TOMs wella gwerth buddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus i gymunedau lleol, gan fod mwy o gyllid yn gallu cefnogi'r economi sylfaenol.

Ar beth ddylem ni fod yn canolbwyntio?

Mae **busnesau lleol sy'n cyfrannu at yr economi sylfaenol yn bartner hanfodol** mewn unrhyw ddull sy'n seiliedig ar leoedd. Maen nhw'n gwneud y canlynol:

- darparu gwasanaethau lleol hanfodol
- gweithredu fel cyrff angori
- cefnogi dyfeisgarwch trwy gyflogaeth
- mewn rhai achosion, darparu arweinyddiaeth ledled y gymuned.

Gall cwmnïau buddiannau cymunedol¹⁰ a microfusnesau ddarparu **ymatebion hyperleol** mewn ardaloedd lle mae darparwyr mawr wedi ei chael yn anodd parhau i ddarparu gwasanaethau. Dylid nodi hyn fel dull o ddatblygu cydnerthedd cymunedol a mynd ati i'w wella.

Dylai pob sefydliad fabwysiadu prosesau caffael TOMs i ddangos gwerth cymdeithasol a chefnogi dyfeisgarwch cymunedol.

Ble ga'i ragor o wybodaeth?

1. [Download.aspx](#) (wlga.wales)

Fframwaith Mesur Gwerth Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru (TOMS)

CLILC, Tachwedd 2020

2. [2018-07-11-01-1-ein maniffesto economïau lleol.pdf](#) (bct.wales)

Maniffesto ein heconomïau lleol

Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

3. [2020-10-02-22-1-bct-cwmni-bro-ffestiniog-achos.pdf](#)

Astudiaeth achos o dwf mentrau cymunedol lluosog ym Mlaenau Ffestiniog

Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

10. Arolygu ac archwilio

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), rhaid i gyrff cyhoeddus ddangos yr hyn y maent yn ei wneud i wella eu dull o gefnogi llesiant. Rhaid iddynt osod amcanion gwella ac adrodd yn eu herbyn. Mae'r arolygiaethau a'r rheoleiddwyr yn cydgysylltu gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio ac yn pwysleisio'r angen i rannu arferion da.

Beth oedd y prif negeseuon?

Mae gyrff arolygu mewn sectorau gwahanol wedi nodi'r anawsterau a gafodd eu creu gan y pandemig, ac maent wedi mabwysiadu agwedd hyblyg at eu gwaith arolygu. Er enghraifft, datblygodd Arolygiaeth Gofal Cymru fframwaith sicrwydd rhithwir ac ymatebol sy'n seiliedig ar risg. Bydd datblygu dulliau ymateb arolygiaethau yn helpu i gadw'r hyn sydd wedi gweithio'n dda a pharatoi ar gyfer bygythiadau posibl yn y dyfodol.

Mae prosesau dyfeisgarwch cymunedol, atal a gweithio mewn partneriaeth yn cael eu hasesu yn ystod arolygiadau. Mae arolygiaethau gwahanol yn gwneud hyn ar lefelau ac adegau gwahanol. Mae *Cymru lachach* yn disgrifio parodrwydd i archwilio gweithio mewn partneriaeth rhwng arolygiaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gyda dull cydweithio cryfach sy'n cynnwys canolbwytio ar weithio mewn partneriaeth. Mae sut i fesur effaith atal ac ymyrryd yn gynnar yn broses heriol.

Mae Estyn yn hyrwyddo pwysigrwydd ysgolion cymunedol fwyfwy, ond nid oes diffiniad clir o ysgol gymunedol sy'n cael ei ddeall a'i rannu'n dda gan arweinwyr ysgolion, awdurdodau lleol a phartneriaid strategol. O ganlyniad, mae'n fwy anodd sicrhau bod ysgolion yn atebol am weithredu cymunedol ehangach – er bod canllawiau *Adroddiad Ysgolion Cymunedol Estyn* yn fan cychwyn da.

10. businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/cy/creating-enterprise-cic

Mae awdurdodau lleol yn debygol o wynebu heriau ariannol sylweddol a pharhaus wrth iddynt adfer yn dilyn y pandemig. Fel rhan o'i blaengynllun, gallai Swyddfa Archwilio Cymru ystyried sut mae awdurdodau lleol yn gallu darparu'r adnoddau a'r cyfleoedd sydd eu hangen ar awdurdodau lleol i'w helpu i ymdopi a ffynnu, yn hytrach na dim ond darparu gwasanaethau iddynt. Gallai ystyried sut mae sefydliadau statudol yn cydgynhyrchu eu gwasanaethau, a rôl dyfeisgarwch cymunedol sy'n seiliedig ar leoedd yn ystod ac ar ôl y broses o adfer yn dilyn y pandemig.

Ar beth ddylem ni fod yn canolbwyntio?

Datblygu'r **ymateb hyblyg i arolygu** yn ystod y pandemig er mwyn cyd-gynllunio ac archwilio gweithgareddau'n ofalus i gefnogi gwaith atal ar lefel gymunedol. Dylai hyn gynnwys arolygiaethau gwahanol a bod yn fwy na dim ond adolygiad byr a phenodol o'r gwasanaeth. Mae'n hollbwysig cydgynhyrchu dull gweithredu hyblyg a mesur yr hyn sy'n bwysig i gymunedau lleol.

Sicrhau bod **ysgolion yn rhan hanfodol o'r gymuned** trwy weithio gydag arweinwyr i:

- gynnwys ysgolion mewn prosesau cynllunio sy'n seiliedig ar leoedd, gan gynnwys sut mae cymunedau yn ymgysylltu ac yn cefnogi plant a phobl ifanc trwy ysgolion fel rhan o'r broses adfer
- dylanwadu ar sut y bydd ysgolion yn gweithio gyda theluoedd, y gymuned a phartneriaid i wella llesiant a chyflawniad pob disgybl
- meddwl am sut y gellir lleoli gwasanaethau yn yr un lle a sut y gellir defnyddio asedau ysgolion yn ehangach.

Ble ga'i ragor o wybodaeth?

1. hub.careinspectorate.com/media/4167/ci-role-purpose-learning-during-covid-19.pdf
Rôl, diben a'r hyn a ddysgwyd gan yr Arolygiaeth Gofal yn ystod Pandemig Covid-19

Arolygiaeth Gofal yr Alban 2020

2. www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Community%2520Schools%2520cy_0.pdf
Ysgolion cymunedol: teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol

Estyn, 2020

Sut i arwain er mwyn cynorthwyo datblygiad dyfeisgarwch cymunedol

Mae'r canllaw yn addas i'r rhai sydd â'r dasg o hwyluso trafodaethau sy'n seiliedig ar leoedd er mwyn helpu i sicrhau bod yr holl ganfyddiadau perthnasol am feithrin dyfeisgarwch cymunedol wedi'u cynnwys. Gall y rhai sy'n cyflawni rôl cefnogi neu hwyluso fod yn:

- gymunedau, gan gynnwys arweinwyr cymunedol
- sefydliadau trydydd sector a chymunedol
- cyrff statudol a byrddau partneriaeth.

Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau'n ymwneud â chyrff statudol. Mae hyn yn adlewyrchu'r dysgu a'r newid sydd eu hangen ar gyrff statudol, gan weithio ochr yn ochr â thimau sy'n seiliedig ar leoedd a chyfrannu at eu gwaith yn gyson.

Isod rydym wedi nodi pob un o'r galluogwyr a chrynodeb byr o'r sylwadau am bob un. Rydym wedi awgrymu amcanion lefel uchel ac wedi datblygu rhestr wirio o gamau gweithredu a gweithgareddau posibl i'w defnyddio ar gyfer dysgu sy'n seiliedig ar leoedd i gyflawni'r amcanion hyn. Mae'n bosibl y bydd gennych amcanion ychwanegol yr hoffech eu cynnwys. Meddyliwch am eich sefydliad, eich lle a'ch cymuned:

- faint o'r gweithgareddau hyn ydych chi'n eu gwneud ar hyn o bryd?
- faint yn rhagor fydddech chi'n gallu eu rhoi ar waith?
- pa weithgaredd allech ei wneud yn well?
- pwy sydd angen rhoi cymorth i chi?
- pa adnoddau sydd eu hangen arnoch ac a fydd modd cael unrhyw un ohonynt am ddim yn gyfnewid am eich arbenigedd mewn maes arall?

Gall sefydliadau ddefnyddio'r canllaw, ond gorau oll os yw'n cael ei ddefnyddio i hwyluso deialog rhwng partneriaid.

Bydd llawer o'r galluogwyr yn gysylltiedig â'i gilydd neu'n gyd-ddibynnol. Mae hon yn system gymhleth, gydgysylltiedig.

Galluogwyr

1. Arweinyddiaeth

Yn aml, mae arweinwyr cymunedol yn unigolion sydd wedi bod yn barod i feddwl a gweithredu mewn ffordd wahanol, gan sefyll eu tir er gwaethaf beirniadaeth bosibl. Daw rhywfaint o arweinyddiaeth gan gyrrff angori cymunedol sy'n gallu bod yn hyblyg ac yn arloesol. Maent yn canfod dulliau gweithredu newydd mewn ffordd greadigol, yn cymryd mwy o risgiau ac yn dileu rhwystrau ymddangosiadol.

Nodau

- Arweinyddiaeth dosturiol sy'n cyfleu gweledigaeth glir, gyffredin a chyffrous ac agweddau "gallu gwneud"
- Mae arweinwyr cymunedol lleol yn derbyn cymorth i ddatblygu
- Mae arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus yn hwyluso eu sefydliad i weithio ochr yn ochr ag arweinwyr cymunedol
- Gwaith partneriaeth strategol cadarn sy'n seiliedig ar leoedd

Gweithgareddau defnyddiol

1. Nodi'r arweinwyr "naturiol" a "penodedig" yn y gymuned
2. Gosod nodau clir a chyffredin, mapio'r deilliannau rydych am eu cyflawni a'r ymddygiad a fydd yn eich helpu i lwyddo
3. Dylunio neu ddod o hyd i gymorth i ddatblygu a gweithredu'r ymddygiad a fydd yn eich helpu i gyflawni eich deilliannau
4. Ystyried cefnogaeth gan gymheiriaid fel dull cyflwyno mentora
5. Edrych ar y rheolau. A ydynt yn briodol? Sut maen nhw'n cael eu dehongli a'u cymhwyso? A ydynt yn cael eu gweithredu yn unol ag ysbryd y fframwaith polisi, yn benodol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant?
6. Mabwysiadu agwedd gytbwys at risgiau:
 - sicrhau cydbwysedd rhwng risgiau, hawliau a chyfrifoldebau mewn ffordd sy'n ystyried risgiau ac effeithiau peidio â gweithredu, yn ogystal â risgiau sy'n deillio o weithredu
 - dileu'r ofn o gael y bai os aiff pethau o chwith a hyrwyddo diwylliant agored sy'n cydnabod ac yn dysgu o gamgymeriadau
 - datblygu cofrestrau risg sy'n cofnodi'r cyfleoedd sy'n deillio o risg
 - gwahodd eraill o fentrau tebyg i siarad â chi am eu taith a'r hyn y maent wedi'i ddysgu o'u llwyddiannau a'u camgymeriadau
7. Cefnogi cyrrff angori cymunedol o bob math sy'n cyflawni rôl arweinyddiaeth trwy hwyluso mynediad at uwch benderfynwyr a gofyn beth sydd ei angen arnynt gennych chi

8. Rhannu eich taith gydag eraill yn agored trwy blatfformau gwahanol er mwyn iddynt elwa ar yr hyn rydych wedi'i ddysgu ar hyd y ffordd

Bydd arweinyddiaeth sy'n datblygu dyfeisgarwch cymunedol yn:

- awyddus i ddatblygu arweinyddiaeth gymunedol
- datblygu a chyfleu gweledigaeth glir, gyffredin sy'n ysbrydoli
- darganfod a chreu posibiliadau
- gwranddo ar anghenion pobl a'u deall
- datblygu a chynnal arweinyddiaeth ac ymrwymiad cyffredin
- dylanwadu ar bobl
- meithrin a chynnal cysylltiadau
- dysgu oddi wrth eraill a chyfrannu at y broses
- gwerthfawrogi gwahaniaeth yn gadarnhaol, gan wneud penderfyniadau trwy greu consensws rhwng safbwyntiau amrywiol
- ceisio goresgyn rhwystrau ac anawsterau.

Adnoddau defnyddiol:

ctb.ku.edu/en/table-of-contents/leadership/leadership-functions/become-community-leader/main

www.nesta.org.uk/feature/innovation-methods/people-powered-results/

gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Practice-principles-CYM-224.pdf

gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Risg-cadarnhaol-a-phenderfynu-ar-y-cyd_190507_140719.pdf

gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Approaches-Report-Exec-Summ-CYM-copy.pdf

Camau gweithredu gofynnol?

2. Gweithredu cymunedol

Cafodd llawer o wasanaethau statudol eu dileu neu eu newid yn ystod y cyfyngiadau symud, ac mewn llawer o achosion bu'n rhaid i'r gymuned weithredu a darparu cymorth. Cynyddodd lefelau gwaith gwirfoddol yn sylweddol mewn rhai ardaloedd, gyda chymorth y cynllun ffyrlo. Ond mewn ardaloedd eraill, gwelwyd gostyngiad mewn lefelau gwaith gwirfoddol gan fod pobl yn hunanynysu ac yn gwarchod eraill.

Nodau

- Deall beth sy'n galluogi gweithredu cymunedol a'r hyn sy'n ei atal
- Deall bod dyfeisgarwch cymunedol yn anniben a bod angen iddo esblygu
- Deall amrywiaeth cymunedau

Gweithgareddau defnyddiol

1. Datblygu cynllun i gynyddu nifer y bobl leol sy'n ymwneud â gweithredu cymunedol a'u cynnwys yn y gwaith o gynllunio, dylunio a darparu gwasanaethau lleol
2. Canolbwyntio ar heriau penodol er mwyn helpu i ysgogi gweithredu (yn hytrach na bod yn rhy eang). Meddwl am y camau gweithredu, y sgiliau a'r adnoddau sydd eu hangen arnoch ar gyfer pob her trwy ofyn y cwestiynau hyn:
 - Beth ydych chi ei eisiau neu ei angen gan weithredu cymunedol?
 - Pa fath o bobl sydd angen i chi ymgysylltu â nhw?
 - Ble maen nhw?
 - Faint o bobl sydd eu hangen arnoch?
 - Pryd sy'n amser da i ymgysylltu â phobl?
 - Sut y dylech gysylltu â phobl a allai gymryd rhan?
 - Pwy sy'n mynd i ddod o hyd i bobl a'u hannog i gymryd rhan?
 - Beth sy'n digwydd os ydych yn cael ateb cadarnhaol, amwys, neu negyddol?
 - Pa rwystrau fydd yn codi o bosibl? Sut byddwch chi'n eu goresgyn?
3. Nodi asedau cymunedol trwy fapio'r hyn oedd ar gael cyn, yn ystod ac ar ôl y cyfyngiadau symud (pan fydd y wybodaeth berthnasol ar gael):
 - a oes unrhyw asedau wedi'u defnyddio at ddiben gwahanol?
 - ble mae'r bylchau?
 - os nad yw asedau cymunedol yn bodoli bellach, beth yw'r effaith ar y gymuned?
 - a yw'r mater hwn wedi'i ddatrys, ac os felly, sut?
4. Nodi a dileu biwrocratiaeth ddiangen – ceisio ei gwneud yn hawdd i bobl gael mynediad at weithgareddau cymunedol
5. Cydgynhyrchu gweledigaeth a blaenoriaethau ar gyfer datblygiad ar y cyd â'r prif randdeiliaid. Cytuno ar y dulliau y byddwch yn eu defnyddio, gan sicrhau bod partneriaid yn nodi eu rôl a'u cyfraniad

6. Egluro beth mae dulliau cyfathrebu digidol yn gallu ei gynnig, a'u cyfyngiadau:

- nodi'r "ardaloedd digyswllt" digidol a phroblemau hygyrchedd
- beth y gellir ei wneud, neu beth sy'n cael ei wneud, i fynd i'r afael â'r bylchau hyn?
- a oes fformatau print, radio neu deledu o newyddion a gwybodaeth bwysig?

7. Cydnabod a meithrin rôl bod yn gymydog da:

- beth mae gwaith gwirfoddol wedi'i wneud ar gyfer yr ardal?
- sut mae gwaith gwirfoddol yn cael ei ariannu?
- a oes angen mwy o adnoddau?

8. Deall amrywiaeth eich cymuned a nodi a yw asedau a gwasanaethau cymunedol yn diwallu anghenion pawb. Er enghraifft, meddwl am yr iaith Gymraeg, diwylliant, grwpiau oedran a ffactorau demograffig eraill

9. Canfod dulliau o gofnodi a dysgu o'r holl waith da sy'n digwydd ar lefel gymunedol

Adnoddau defnyddiol:

[Developing Community Action](#)

[Safonau Dementia Gwelliant Cymru](#) (Gweithredu Cymunedol)

gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Approaches-Report-Exec-Summ-CYM-copy.pdf

Camau gweithredu gofynnol?

3. Cydgynhyrchu

Mae gwaith cydgynhyrchu yn cael ei gamddeall yn aml. Mae'n bwysig sicrhau bod pobl sy'n cael eu heffeithio gan benderfyniadau yn cael eu cynnwys yng ngwaith dylunio a chynllunio gwasanaethau er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn seiliedig ar anghenion.

Nodau

- Mae pob llais mewn cymuned yn cael ei glywed
- Mae rheolaeth yn cael ei rhannu – mae hyn yn golygu ildio rheolaeth a gweithio ochr yn ochr â chymunedau a phartneriaid eraill
- Mae'r trydydd sector yn gweithio'n fwy rhagweithiol gyda gwasanaethau cyhoeddus i ddatblygu dulliau ystyrlon o fesur effaith

Gweithgareddau defnyddiol

1. Ceisio newid agweddau 'methu gwneud' a 'ddim am wneud' yn agweddau 'gallu gwneud' ac 'am wneud':
 - clywed a deall y rhwystrau i newid
 - gofyn 'pam' na all pethau ddigwydd yn ystod sgysiau gyda phartneriaid a rhanddeiliaid, yna rhannu syniadau am atebion
 - dileu rhwystrau i newid
2. Sicrhau bod gwaith dylunio a chynllunio gwasanaethau mor gyfartal, cynhwysol ac amrywiol â phosibl trwy ddileu rhwystrau a ffiniau:
 - chwilio am safbwyntiau amrywiol sy'n adlewyrchu eich cymuned yn llawn – nid dim ond y lleisiau mwyaf croch neu fwyaf brwdfrydig
 - cydnabod nad oes modd i un person gynrychioli'r holl safbwyntiau yn ei gymuned
3. Darparu adnoddau i grwpiau cymunedol, megis grwpiau rhieni a phlant bach, Sefydliadau Menywod, Siediau Dynion a chlybiau chwaraeon, gan gynnwys:
 - cynnal polau piniwn neu arolygon
 - trafodaethau grwpiau ffocws
4. Dangos sut mae cymunedau wedi dylanwadu ar gyrff penderfynu statudol a newidiadau polisi
5. Rhoi llais i bobl – yn uniongyrchol a thrwy gysylltwyr cymunedol – cyn gweithredu ar yr hyn y maent yn ei ddweud wrthyh
6. Chwilio am enghreifftiau da o gydgyhyrchu mewn ardaloedd eraill i weld a allwch ddysgu gwersi neu fabwysiadu eu dulliau gweithio
7. Gweithio gyda'r gymuned, nid dros y gymuned

Mae'r New Economics Foundation yn nodi bod cydgynhyrchu:

- yn cydnabod pobl fel asedau: Mae pobl yn cael eu hystyried yn bartneriaid cyfartal wrth gynllunio a darparu gwasanaethau, yn hytrach na fel buddiolwyr goddefol neu feichiau ar y system
- yn datblygu galluoedd pobl: Mae pawb yn cydnabod galluoedd pob unigolyn ac mae pobl yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt i ddatblygu eu galluoedd. Mae pobl yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt i allu bod o fudd i'w cymuned a phobl eraill
- yn datblygu perthynas ddwyochrog a dwy ffordd: Mae cydgynhyrchu o bob math yn ymwneud â pherthynas gadarnhaol, ryngweithiol, rhwng defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol ym maes gwasanaethau cyhoeddus a rhwng y bobl sy'n cymryd rhan
- yn hyrwyddo rhwydweithiau cefnogaeth gan gymheiriaid: Yn aml, nid yw rhwydweithiau cymheiriaid a phersonol yn cael eu gwerthfawrogi nac yn derbyn cymorth. Mae cydgynhyrchu yn datblygu'r rhwydweithiau hyn gyda chymorth gweithwyr proffesiynol
- yn lleihau ffiniau rhwng darparu a derbyn gwasanaethau: Mae'r ffin arferol rhwng y rhai sy'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau a'r rhai sy'n eu defnyddio yn lleihau, ac mae mwy o bobl yn cyfrannu at y broses
- yn hwyluso gwasanaethau yn hytrach na'u darparu: Mae sefydliadau'r sector cyhoeddus (fel y Llywodraeth, cynghorau lleol ac awdurdodau iechyd) yn helpu i sicrhau bod pethau'n digwydd, yn hytrach na darparu gwasanaethau eu hunain. Er enghraifft, pan fydd cyngor yn helpu pobl sy'n defnyddio gwasanaethau i ddatblygu rhwydwaith cefnogaeth gan gymheiriaid.

Adnoddau defnyddiol:

[Public Services Inside Out](#)

[Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru](#) (copaonet.cymru)

[gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Approaches-Report-Exec-Summ-CYM-copy.pdf](#)

Camau gweithredu gofynnol?

4. Polisi

Mae'r polisi yng Nghymru yn cefnogi'r gwaith o gynllunio a datblygu dyfeisgarwch cymunedol, ond nid yw'n cael ei ddehongli na'i gymhwyso'n gyson.

Nodau

- Mae pob lle yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu dyfeisgarwch cymunedol a ddarperir gan bolisi yng Nghymru
- Mae polisi comisiynu a chaffael yn cefnogi dyfeisgarwch cymunedol
- Mae polisi yn deillio o sgysiau sy'n seiliedig ar leoedd

Gweithgareddau defnyddiol

1. Meddwl am sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cael eu cymhwyso yn eich cymuned: a yw'n cyd-fynd ag ysbryd y deddfau?
2. Mynd ati'n rheolaidd i gadarnhau bod eich gweithredoedd yn seiliedig ar eich gweledigaeth: 'ydyn ni'n gweithredu yn ymarferol?'
3. Ystyried sut y gellir ail-lunio gwaith comisiynu, caffael a chyllido er mwyn darparu mwy o sefydlogrwydd hirdymor i ddarparwyr gwasanaethau
4. Cyflwyno prosesau cynnig ar y cyd i hyrwyddo gwaith mewn partneriaeth a lleihau cystadleuaeth am gyllid
5. Gweithio gyda darparwyr gwasanaethau cyn tendro am wasanaethau er mwyn cyfuno gweledigaeth a nodau
6. Rhoi systemau ar waith i grynhoi trafodaethau a thystiolaeth sy'n deillio o sgysiau seiliedig ar leoedd, er enghraifft, systemau ymgysylltu â rhanddeiliaid
7. Symleiddio prosesau monitro a gwerthuso gan gofio bod systemau monitro cymhleth yn gallu llesteirio darpariaeth

Adnodd defnyddiol:

[Community Resilience Development Framework](#)

Camau gweithredu gofynnol?

5. Meddwl yn strategol

Er mwyn chwalu rhwystrau rhwng sefydliadau mae angen meddwl yn strategol am eich camau gweithredu a sut y gallent effeithio ar sefydliadau eraill. Bydd angen cymryd risgiau er mwyn gwneud hyn.

Nodau

- Hyrwyddo meddwl strategol hirdymor

Gweithgareddau defnyddiol

1. Mae sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus, megis byrddau gwasanaethau cyhoeddus, byrddau partneriaeth rhanbarthol, awdurdodau lleol a byrddau iechyd, yn cynllunio ac yn comisiynu ar gyfer gwerth cymdeithasol trwy ddefnyddio'r Fframwaith Themâu, Deilliannau a Mesurau (TOMS) Cenedlaethol a Phecynnau cymorth gallu gwneud
2. Cynorthwyo'r broses o ddefnyddio adnoddau mewn ffordd hyblyg, gan gynnwys pobl a chyllid
3. Buddsoddi mewn busnesau lleol a chymdeithasol
4. Datblygu gweledigaeth gyffredin sy'n seiliedig ar leoedd a chytuno ar sut mae gwasanaethau statudol, y trydydd sector a'r sector preifat yn gallu helpu i wireddu'r weledigaeth
5. Herio a cheisio rhoi terfyn ar yr arfer o beidio â rhannu gwybodaeth bwysig
6. Dewis prosiect peilot i brofi dulliau gweithredu newydd, cyn mynd ati i grynhoi a rhannu'r hyn a ddysgwyd
7. Ystyried eich rôl yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am fod yn ddiogel a chadw'n ddiogel yn eu cymunedau, yn enwedig yn sgil y pandemig

Adnoddau defnyddiol:

[TOMS](#)

[Can do toolkits](#)

[Six-step process to planning for community resilience](#)

Camau gweithredu gofynnol?

6. Adnoddau

Yn ystod y pandemig, clywsom am adnoddau'n cael eu defnyddio at ddiben gwahanol neu eu rhannu mewn rhai ardaloedd, ond eu gwastraffu mewn ardaloedd eraill. Mae amser, arian, adeiladau a phobl yn adnoddau y mae angen manteisio arnynt er mwyn cynorthwyo cymunedau.

Nodau

- Bod mor hyblyg â phosibl wrth ddefnyddio adnoddau ar lefel leol

Gweithgareddau defnyddiol

1. Datblygu modelau ariannu mwy hirdymor ar gyfer llesiant cymunedol
2. Darparu adnoddau er mwyn helpu sefydliadau i fod yn hyblyg, mewn ffordd sy'n osgoi eu trefnu
3. Dileu rhwystrau sy'n atal pobl a sefydliadau rhag cefnogi'r hyn sy'n gweithio'n dda
4. Adolygu asedau cymunedol a'u diben, a'u cymharu â sut y cawsant eu defnyddio yn ystod y pandemig. A fyddai'n ddefnyddiol eu defnyddio at ddiben gwahanol yn yr hirdymor?
5. Os oes modd, trosglwyddo'r asedau i sefydliadau cymunedol er mwyn eu cynnal a'u datblygu

Adnoddau defnyddiol:

[Creu cymunedau cydnerth](#)

[Reimagining community services](#)

Camau gweithredu gofynnol?

7. Cydweithio

Nodir yn aml bod ymddiriedaeth a chysylltiadau yn hanfodol ar gyfer gwaith gwell a mwy ystyrlon.

Nodau

- Partneriaeth eang o sefydliadau yn cydweithio'n lleol
- Mae ymgysylltu yn ddefnyddiol ac yn berthnasol i'r cyhoedd
- Mae pobl a sefydliadau yn gweld canlyniadau eu cyfranogiad.

Gweithgareddau defnyddiol

1. Mae'n bwysig gosod eich egwyddorion a'ch gwerthoedd o'r cychwyn cyntaf, ac mae hyn yn bwysicach na nodi eich deilliannau. Os yw'r ymddygiad cydweithredol cywir ar waith, bydd y deilliannau'n gofalu amdanynt eu hunain
2. Buddsoddi amser ac adnoddau i feithrin cysylltiadau
3. Datblygu dull cyffredin o fesur effaith – osgoi mesurau monitro diystyr
4. A yw sefydliadau'r trydydd sector yn gallu rhannu staff, megis staff cefn swyddfa a chodi arian?

Adnodd defnyddiol:

[Embracing Resilience: Collaborative and Equitable Resilience Practices](#)

Camau gweithredu gofynnol?

8. Atal

Mae atal yn well na gwella...

Nodau

- Gweithgarwch ataliol yw'r prif ddull gweithredu ym mhob ardal

Gweithgareddau defnyddiol

1. Datblygu dealltwriaeth gyffredin o ystyr atal a chefnogi gwaith atal
2. Cydnabod pwysigrwydd a chyfraniad:
 - dulliau anffurfiol o fod yn gymydog sydd wedi datblygu'n rolau gofalu a chwmnïaeth
 - grwpiau cymorth a gweithgarwch cymunedol
 - manau gwyrdd
 - asedau cymunedol eraill
3. Ymddiried yng ngallu'r gymuned i wybod beth sydd orau iddi. Casglu tystiolaeth ac ymchwil dros amser i fesur effaith gwaith atal
4. Mabwysiadu agwedd sy'n canolbwyntio ar y gymuned at iechyd a llesiant trwy:
 - ddatblygu dull gweithredu sy'n llwyddo ar draws sectorau
 - sicrhau bod cymunedau'n gwneud cyfraniad gwirioneddol at gynllunio a darparu gwasanaethau
 - mapio a defnyddio asedau lleol
 - defnyddio dulliau comisiynu sy'n rhoi mynediad i bawb, waeth beth fo'u hoedran, at weithgareddau sy'n cefnogi llesiant
 - mesur deilliannau sy'n bwysig i gymunedau
 - pwysleisio gweithgareddau atal i raddau mwy mewn prosesau cynllunio strategol a chomisiynu

Adnodd defnyddiol:

[Health Matters: Community-centred approaches for health and wellbeing](#)

Camau gweithredu gofynnol?